Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 713A2016

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â'r swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r cod dan adran 45 yn amlinellu'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus o ran ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Elaine Matthews, Barrie Morris, Gail Turner-Radcliffe a Jenny Trevor dan gyfarwyddyd Dave Thomas

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynghylch yr adroddiad hwn 7

Adran 1: Archwilio'r cyfrifon

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn nifer o faterion i sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a rhoddais adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio 8

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 10

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyflawni arbedion sylweddol, ond mae angen cryfhau elfennau pwysig ar reolaeth ariannol ymhellach er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog a bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchedd ariannol allanol sy'n heriol 10

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda ac mae'r prosesau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, ond mae gofynion allweddol o ran sicrwydd yn dal i ddatblygu ac nid aethpwyd i'r afael yn llawn eto â rhai o'r materion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol 12

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf 14

Atodiad 2 – ffi archwilio 15

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 16

# Adroddiad cryno

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn sgil y gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn caniatáu imi gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio'r cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Gellir cael rhagor o fanylion ynghylch elfennau penodol fy ngwaith archwilio yn yr adroddiadau ar wahân yr wyf wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir eu bod yn ffeithiol gywir gyda'r swyddogion, ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r adroddiadau yr wyf wedi'u cyhoeddi i'w gweld yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 17 Ionawr 2017. Yna, bydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn daer i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru).

5 Mae'r prif negeseuon yn sgil fy ngwaith archwilio wedi'u crynhoi dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio'r cyfrifon

6 Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn nifer o faterion i sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Y prif fater yw cysondeb o ran ymdrin ag amcangyfrifon cyfrifon rheoli ynghylch cyfnodau a gwblhawyd yn rhannol ac adfachiadau gan ddeintyddion.

7 Yn ogystal, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.

8 Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn ffeithiol gywir. Yn fy ngwaith, ni nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm gwaith archwilio'r cyfrifon.

9 Roedd y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16. Rhoddaf ragor o fanylion ynghylch y sefyllfa ariannol a'r trefniadau o ran rheolaeth ariannol yn adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

10 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith Asesu Strwythuredig sydd wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran rheolaeth ariannol, ei drefniadau o ran llywodraethu a sicrwydd, a'r cynnydd a wnaed ynghylch y materion ar gyfer gwella a nodwyd y llynedd. Yn sgil y gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyflawni arbedion sylweddol, ond mae angen cryfhau elfennau pwysig o reolaeth ariannol ymhellach er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog a bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchedd ariannol allanol sy'n heriol

11 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei gynllunio ariannol strategol fel y gellir cyflawni strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd.

12 Gellid gwella'r trefniadau rheoli ariannol a stiwardiaeth ymhellach er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd ariannol.

13 Er bod trefniadau cryf o ran monitro ariannol ar waith, mae angen gwelliant o ran adrodd ariannol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol at ddibenion gwneud penderfyniadau.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae'r perfformiad yn y flwyddyn gyfredol yn dangos y cyflawnir sefyllfa ariannol gytbwys ar ddiwedd 2016-17.

### Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda ac mae'r prosesau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, ond mae gofynion allweddol o ran sicrwydd yn dal i ddatblygu ac nid aethpwyd i'r afael yn llawn eto â rhai o'r materion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol

15 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i lunio ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) am yr ail flwyddyn ac mae'n parhau i gryfhau'r prosesau cynllunio, ond mae angen datblygu monitro ac adrodd ar gyflawni ymhellach.

16 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyson o ran datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd a chryfhau effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, er nad yw materion ynghylch llywodraethu gwybodaeth wedi'u datrys eto.

17 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ynghylch gweithredu argymhellion. Mae camau gweithredu i fynd i’r afael â’r materion a’r argymhellion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol ar y trywydd iawn ond nid ydynt wedi’u cwblhau eto.

18 Rydym yn ddiolchgar am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau’r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynghylch yr adroddiad hwn

19 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Bwrdd Iechyd yn nodi'r prif argymhellion sy'n deillio o'r gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Tachwedd 2016.

20 Mae fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004[1]. Dan y ddeddf honno, mae'n ofynnol imi wneud y canlynol:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir imi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hunan fod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a

c) bodloni fy hunan fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

21 O ran (c), rwyf wedi cael sicrwydd neu fel arall o'r ffynonellau gwybodaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed yn rhan o fy Asesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a oedd yn archwilio'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, pan eu bod yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ardystio hawliadau a datganiadau.

22 Rwyf wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon a gynhwysir yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, ac mae rhestr ohonynt wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

23 Mae canfyddiadau fy ngwaith yn cael eu hystyried o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio'r cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

24 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen imi ei chodi i dalu gwir gostau gwneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016.

25 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2016 a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: Archwilio'r cyfrifon

26 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llif arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos stiwardiaeth briodol o ran arian cyhoeddus.

27 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol imi roi fy marn ynghylch y canlynol:

- pa un a ydynt yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- pa un a ydynt yn rhydd o gamddatganiad ffeithiol – pa un a achoswyd hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad;
- pa un a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol o ran cyflwyno a datgelu cyfrifyddu;
- pa un a yw'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

28 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA).

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn nifer o faterion i sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a rhoddais adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn ffeithiol gywir

29 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 ar 29 Ebrill 2016, yn unol â'r terfyn amser a gytunwyd. Roedd y papurau gweithio wedi'u paratoi i safon uchel.

30 Dan ISA 260, mae'n ofynnol imi roi gwybod i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu am faterion sy'n codi o'm gwaith cyn imi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Rhoddodd fy Arweinydd Ymgysylltu ynghylch Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd ar 31 Mai 2016. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Ymdrin yn gyson ag amcangyfrifon cyfrifon rheoli | Nodais ddau achos lle'r oedd camddatganiadau yn yr amcangyfrif o ddyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn rhwng 2014-15 a 2015-16. Roedd y cyntaf yn ymwneud â Chyfnodau a Gwblhawyd yn Rhannol, lle cynhwyswyd croniad yn 2014-15 ond nid yn 2015-16. Mae hyn wedi arwain at danddatgan gwariant yn 2015-16, er ein bod yn nodi bod peidio â chynnwys cyfnodau a gwblhawyd yn rhannol yn y cyfrifon yn arfer a dderbynnir yn gyffredinol yn y GIG yng Nghymru. Roedd yr ail achos yn ymwneud ag adfachu tanweithgarwch gan Ddeintyddion lle nad oedd dyledwr wedi'i gynnwys ar gyfer 2014-15 na 2015-16 o ganlyniad i absenoldeb staff. |
| Materion eraill | Nodais hefyd faterion ynghylch y canlynol:<br>• peidio â chanslo sieciau ar ôl chwe mis;<br>• peidio ag awdurdodi cyfrifon manwl;<br>• cadw papurau gweithio cyfrifon manwl;<br>• dim cofnodion archwilio rhwydwaith; a<br>• dim adolygiadau rhagweithiol o fynediad defnyddwyr. |

31 Yn rhan o fy archwiliad ariannol, cynhaliais hefyd yr adolygiadau canlynol:

- Datganiad o Gyfrifon Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gydgyfnerthu partïon eraill yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2016 a bod y datganiad wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; ac
- Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

32 Disgwylir i'm harchwiliad annibynnol ar wahân o'r datganiadau ariannol ynghylch cronfeydd elusennol gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2016.

## Yn fy ngwaith, ni nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

33 Adolygais reolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd yr oeddwn o'r farn eu bod yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i risgiau camddatganiad ffeithiol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni wnes eu hystyried at ddibenion mynegi barn ynghylch eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Yn fy adolygiad, ni nodwyd unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

34 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hunan fod trefniadau priodol ar waith gan gyrff y GIG i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran rheolaeth ariannol, gan gynnwys y cynnydd a wneir wrth gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at gyflawni cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Asesiad Strwythuredig a wnaed y llynedd; ac
- asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau allanol.

35 Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyflawni arbedion sylweddol, ond mae angen cryfhau elfennau pwysig o reolaeth ariannol ymhellach er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog a bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchedd ariannol allanol sy'n heriol

36 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i sicrhau cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull gweithredu o ran cynllunio ariannol, rheolaethau ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Mae fy mhrif ganfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

### Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei gynllunio ariannol strategol fel y gellir cyflawni strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd

37 Mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer pennu cyllidebau refeniw a chyfalaf mewn sawl ffordd bwysig er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheolau Sefydlog. Er bod swyddogaethau a chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn glir ac yn ddealledig a bod prosesau priodol a gweithgareddau cyllidebol wedi'u cofnodi yng ngweithdrefnau'r rheolaethau cyllidebol, gwnaethom nodi nifer o wendidau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw.

38 Er bod y cyllidebau yn cael eu paratoi yn unol ag amserlen yr IMTP, a'u bod felly yn cysylltu ag ef, nid ymddengys eu bod wedi'u llunio gan strategaeth hirdymor oherwydd nad ystyriwyd y cyllidebau wrth ddrafftio'r cynlluniau cyflawni sy'n sail i'r IMTP.

## Gellid gwella'r trefniadau rheoli ariannol a stiwardiaeth ymhellach er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd ariannol

39 Mae'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau o ran rheoli ariannol ac atebolrwydd yn glir, er y cafwyd cyfnod o ddau fis pan oedd y swydd Cyfarwyddwr Cyllid yn wag. Roedd hyn yn golygu bod y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Atebol, yn agored i risg na chafwyd sicrwydd priodol ar ei chyfer. Yn absenoldeb Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, cyflwynwyd mesurau tymor byr i sicrhau bod aelodau eraill o'r tîm cyllid yn cyflawni elfennau allweddol swydd y Cyfarwyddwr Cyllid, ond mae angen cwblhau'r adolygiad a gynlluniwyd o'r trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth.

40 Gall y Bwrdd Iechyd gryfhau rheolaethau ariannol drwy sicrhau bod y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu diweddaru a'u hadolygu yn rheolaidd a thrwy adolygu'r amgylchedd rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith ac y glynir wrthynt.

## Er bod trefniadau cryf ar gyfer monitro ariannol ar waith, mae angen gwelliant o ran adrodd ariannol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol at ddibenion gwneud penderfyniadau

41 Bob mis, cynhelir cyfres o gyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Arweinwyr Gweithredol lle trafodir cynllunio monitro ariannol ac arbedion. O'r cyfarfodydd hyn daw adroddiad monitro ariannol a lunnir i safon dda.

42 Fodd bynnag, mae angen gwella adrodd ariannol er mwyn darparu digon o wybodaeth i gyfrannu'n well at gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau. Gan nad yw'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau arbedion yn cael ei dracio mewn amser real, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau gwelliant o ran adrodd ar gyflawni'r cynlluniau arbedion.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei nodau ariannol blynyddol ar gyfer 2015-16 ac mae'r perfformiad yn y flwyddyn gyfredol yn dangos y bydd sefyllfa ariannol gytbwys yn cael ei chyflawni ar ddiwedd 2016-17

43 Ni chawsom hyd i dystiolaeth y gallai darpariaeth sefydliadol neu ansawdd a diogelwch y gwasanaethau fod wedi'u rhoi mewn perygl, neu fod hynny wedi digwydd, er mwyn cyflawni perfformiad ariannol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, er nad yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb bob amser wedi'u cwblhau ynghylch yr arbedion a wnaed.

44 Mae ein casgliad ynghylch cyflawni perfformiad ariannol yn seiliedig ar y canlynol:

- ceir hanes o gyflawni yn erbyn y gyllideb ers i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â diffyg ariannol hanesyddol a chynyddu dyraniad cyllid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r sefyllfa gyllido newydd ac, yn ôl y rhagolwg, bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17;
- ni chawsom hyd i dystiolaeth y gallai darpariaeth sefydliadol neu ansawdd a diogelwch y gwasanaethau fod wedi'u rhoi mewn perygl, neu fod hynny wedi digwydd, er mwyn cyflawni perfformiad ariannol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, er nad yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb bob amser wedi'u cwblhau ynghylch yr arbedion a wnaed.

## Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda ac mae'r prosesau cynllunio wedi gwella'n sylweddol, ond mae gofynion allweddol o ran sicrwydd yn dal i ddatblygu ac nid aethpwyd i'r afael yn llawn eto â rhai o'r materion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol

45 Mae fy ngwaith ynghylch llywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran cynllunio strategol ac adrodd, a'r dull gweithredu o ran datblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Rwyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol a materion i'w gwella.

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i lunio ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) am yr ail flwyddyn ac mae'n parhau i gryfhau'r prosesau cynllunio, ond mae angen datblygu monitro ac adrodd ar gyflawni ymhellach

46 Lluniwyd yr IMTP o fewn yr amserlen ofynnol, roedd yn destun craffu gan y bwrdd ac fe'i cymeradwywyd ganddo, a chafodd ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi model cynllunio strategol cynhwysfawr ar waith ac mae'n cymryd camau i gryfhau gallu a chapasiti o ran cynllunio. Mae trefniadau sicrwydd effeithiol sy'n datblygu er mwyn monitro ac adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r IMTP, er y gallai adroddiadau wneud gwell defnydd o grynodebau, cerrig milltir a rhagolygon. Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i ddatblygu ei Strategaeth Iechyd a Gofal tymor hwy.

### Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyson o ran datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd a chryfhau effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, er nad yw materion ynghylch llywodraethu gwybodaeth wedi'u datrys eto

47 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfûm:

- er bod y broses o ddatblygu fframwaith sicrwydd cynhwysfawr y bwrdd wedi bod yn hirfaith, mae’r Bwrdd bellach yn deall y gofynion o ran sicrwydd ac mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i’w gwblhau a’i weithredu’n effeithiol;
- mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer iawn o waith i gryfhau effeithiolrwydd ei fwrdd a’i bwyllgorau, er y gellir gwneud mwy i ddarparu gwasanaethau gwrth-dwyll ac archwilio clinigol effeithiol; ac
- mae llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn bryder, er bod newidiadau diweddar wedi cryfhau’r trefniadau o ran datblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sicrwydd.

## Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ynghylch gweithredu argymhellion. Mae camau gweithredu i fynd i’r afael â’r materion a’r argymhellion a nodwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol ar y trywydd iawn ond nid ydynt wedi’u cwblhau eto

48 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i’r afael â’r 7 argymhelliad a wnaed y llynedd a’r 8 argymhelliad a wnaed yn 2014. O gyfanswm o 15 argymhelliad, mae 7 wedi’u cwblhau ac mae 8 ar y trywydd iawn ond heb eu cwblhau eto.

49 Yn ogystal ag adolygu’r camau a gymerwyd i fynd i’r afael â’r argymhellion yn fy asesiad strwythuredig blaenorol, rhoddais ystyriaeth hefyd i effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i ymateb i argymhellion fy ngwaith archwilio. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau adrodd ynghylch gweithredu argymhellion.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2016

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mai 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Adroddiad Archwilio Annibynnol ar y Cyfrif Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2016 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Rhagfyr 2016 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth 2016 |
| Protocol Gwaith Archwilio Perfformiad Allanol y GIG | Mai 2016 |

Arddangosyn 3: Archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd ac amcan o'r dyddiad cwblhau

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Comisiynu'r Gwasanaeth Ambiwlans Brys | Ionawr 2017 |
| Trefniadau ar gyfer Sicrhau Gwasanaethau Meddygon Ymgynghorol y GIG | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o Wasanaethau Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau | Ebrill 2017 |
| Adolygiad o Gynllunio ar gyfer Rhyddhau Unigolion | Gorffennaf 2017 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2016 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £264,305 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn gyson â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Arddangosyn 4: Risgiau archwilio sylweddol ar gyfer 2016 a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o anwybyddu rheolaethau gan reolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai'r fath anwybyddu ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y cyfrifon manwl ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am ogwyddion; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau sylweddol y tu allan i gynnal busnes yn y modd arferol. | Y gwaith a gwblhawyd:<br>Adolygu rheolaethau endidau; adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, dyfarniadau a phenderfyniadau a wnaed gan reolwyr; profi cofnodion yn y cyfrifon manwl; ac adolygu trafodiadau sylweddol anghyffredin.<br><br>Y prif ganfyddiadau:<br>Nid yw ein gwaith archwilio wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o anwybyddu rheolaethau gan reolwyr. Yn arbennig, nid yw canfyddiadau ein hadolygiad o reolaethau cyfrifon manwl a phrofi cofnodion yn y cyfrifon manwl wedi nodi unrhyw faterion o bwys. |
| Ym mhob endid y mae risg o gamddatganiad ffeithiol o ganlyniad i dwyll o ran adnabod refeniw ac felly caiff ei thrin fel risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Er bod y rhan fwyaf o incwm y Bwrdd Iechyd yn cael ei ddiffinio yn nhermau gwerth a'r cyfnod cyfrifyddu y mae'n ymwneud ag ef, bydd fy nhîm archwilio yn gwerthuso pa fathau o refeniw sy'n achosi risg o'r fath a, phan fo'n briodol, yn canolbwyntio'r gwaith profi ar amseru a gwerth y trafodiadau hyn. | Y gwaith a gwblhawyd:<br>Rydym wedi adolygu polisïau nodi refeniw y Bwrdd Iechyd ac wedi cynnal profion ar ffrydiau refeniw perthnasol (cyllid Terfyn Adnoddau Refeniw).<br><br>Y prif ganfyddiadau:<br>Nid yw ein gwaith archwilio wedi nodi unrhyw faterion ynghylch nodi refeniw. |
| Ym mhob endid, gwneir dyfarniadau o bwys ac amcangyfrifon cyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn. Enghraifft o'r rhain sy'n benodol i'r Bwrdd Iechyd yw hawliadau am ofal iechyd parhaus a gwariant ar | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ei waith profi ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys gogwydd o ran adrodd. | Y gwaith a gwblhawyd:<br>Dogfennu ein dealltwriaeth o brosesau a rheolaethau allweddol yn ystod y cylch trafodiadau; adolygu amcangyfrifon pan fo'n berthnasol, e.e. Dibrisio, |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol. | | Mynegrifo. Adolygu amcangyfrifon am resymoldeb wrth gomisiynu Cyflenwadau a Gofal Iechyd.<br><br>Y prif ganfyddiadau:<br>Nid yw ein gwaith archwilio wedi nodi unrhyw faterion ychwanegol o bwys ynghylch y risg a nodwyd. |
| Mesuriadau ailbrisio heb fod yn gywir. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• Adolygu’r rheolaethau ariannol mewnol sy’n ymwneud â phrisio eiddo, peiriannau ac offer;<br>• Adolygu’r cofnodion cyfrifyddu ynghylch unrhyw ailbrisiadau i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu’n llawn ac yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Y gwaith a gwblhawyd:<br>Rydym wedi adolygu Ailbrisiadau, Mynegrifo a Diffygion yn y datganiadau ariannol. Rydym hefyd wedi edrych yn fanwl ar y maes risg.<br><br>Y prif ganfyddiadau:<br>Nododd ein gwaith archwilio fod mynegrifo wedi’i gyfrifo’n anghywir, ac arweiniodd hyn at wall ffeithiol. Mae’r rheolwyr wedi cywiro’r gwall hwn. |
| Comisiynu gofal iechyd – addasiadau i’r gwariant o ran amrywiaeth gweithgarwch heb fod yn gywir. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• Edrych yn fanwl ar y rheolaethau<br>• Profi gwariant ar gontractau yn gadarn<br>• Cytuno ar gredydwyr, dyledwyr, incwm a gwariant y GIG i sicrhau cydbwysedd mewn cytundebau<br>• Profi o amgylch y trafodiadau diwedd blwyddyn i sicrhau bod croniadau yn gyflawn<br>• Profi croniadau yn gadarn | Y gwaith a gwblhawyd:<br>Rydym wedi edrych yn fanwl ar wybodaeth am ofal iechyd eilaidd, a phrofi gweithgarwch contractau ar gyfer awdurdodau Cymru a Lloegr.<br><br>Y prif ganfyddiadau:<br>Nododd ein gwaith archwilio anghysondeb yn y dull gweithredu /ffordd o ymdrin â chyfnodau a gwblhawyd yn rhannol sy’n werth £288,000. |
| Croniadau cydnabyddiaeth ariannol gweithwyr wedi’u tanddatgan (Costau cydnabyddiaeth ariannol heb fod yn gywir). | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• Dogfennu ein dealltwriaeth o’r prosesau a’r prif reolaethau dros y cylch trafodiadau | Y gwaith a gwblhawyd:<br>Edrych yn fanwl a dadansoddi tueddiadau o ran yr honiad cyflawnder ynghylch Cydnabyddiaeth Ariannol Gweithwyr. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| | • Edrych yn fanwl ar y prif reolaethau i asesu pa un a yw’r rheolaethau hynny wedi’u cynllunio’n effeithiol<br>• Cysoni ffigur y gyflogres yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (a’r nodiadau ategol) â’r cyfriflyfr cyffredinol ac is-system y gyflogres<br>• Cynnal dadansoddiad o dueddiadau o ran data misol y gyflogres, er mwyn nodi amrywiadau anghyffredin y gall fod angen gweithdrefnau archwilio ychwanegol ar eu cyfer.<br>• Adolygu datgeliadau pensiwn a chytuno â thystiolaeth sylfaenol ynghylch cyflawnder a chywirdeb<br>• Adolygu datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol, bandiau cyflog a phecynnau ymadael uwch-reolwyr am gyflawnder a chywirdeb | Y prif ganfyddiadau:<br>Ni nododd ein gwaith archwilio unrhyw faterion sylweddol o ran y risg a nodwyd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru